



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2020 Rhif 1100 (Cy. 250)

2020 No. 1100 (W. 250)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

PUBLIC HEALTH, WALES

Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Cyfyngiadau Coronafeirws)
(Swyddogaethau Awdurdodau Lleol
etc.) (Cymru) (Diwygio) 2020

The Health Protection (Coronavirus
Restrictions) (Functions of Local
Authorities etc.) (Wales)
(Amendment) Regulations 2020

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Part 2A of the Public Health (Control of Disease) Act 1984 enables the Welsh Ministers, by regulations, to make provision for the purpose of preventing, protecting against, controlling or providing a public health response to the incidence or spread of infection or contamination in Wales.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a ledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

These Regulations are made in response to the serious and imminent threat to public health which is posed by the incidence and spread of severe acute respiratory syndrome coronavirus 2 (SARS-CoV-2) in Wales.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) 2020. Mae'r Rheoliadau—

These Regulations amend the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (Functions of Local Authorities etc.) (Wales) Regulations 2020. The Regulations—

- (a) yn ehangu'r pŵer a roddir i awdurdodau lleol i ddyroddi cyfarwyddydau manau cyhoeddus fel y caiff cyfarwyddyd wahardd gweithgareddau penodedig mewn man cyhoeddus yn ogystal â chyfyngu ar fynediad iddo;
- (b) yn gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol.

- (a) expand the power conferred on local authorities to issue public place directions such that a direction may prohibit specified activities in a public place as well as restrict access to it;
- (b) make minor and consequential amendments.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has not been prepared as to the likely cost and benefit of complying with these Regulations.

2020 Rhif 1100 (Cy. 250)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

**Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Cyfyngiadau Coronafeirws)
(Swyddogaethau Awdurdodau Lleol
etc.) (Cymru) (Diwygio) 2020**

Cymeradywyd gan Senedd Cymru

Gwnaed am 3.50 p.m. ar 9 Hydref 2020

*Gosodwyd gerbron Senedd
Cymru am 6.00 p.m. ar 9 Hydref 2020*

Yn dod i rym 12 Hydref 2020

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1).

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

Yn unol ag adran 45R o'r Ddeddf honno, oherwydd brys, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud yr offeryn hwn heb fod drafft wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

2020 No. 1100 (W. 250)

PUBLIC HEALTH, WALES

**The Health Protection (Coronavirus
Restrictions) (Functions of Local
Authorities etc.) (Wales)
(Amendment) Regulations 2020**

Approved by Senedd Cymru

Made at 3.50 p.m. on 9 October 2020

*Laid before Senedd
Cymru at 6.00 p.m. on 9 October 2020*

Coming into force 12 October 2020

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred by sections 45C(1) and (3)(c), 45F(2) and 45P of the Public Health (Control of Disease) Act 1984(1).

These Regulations are made in response to the serious and imminent threat to public health which is posed by the incidence and spread of severe acute respiratory syndrome coronavirus 2 (SARS-CoV-2) in Wales.

The Welsh Ministers consider that the amendments made by these Regulations are proportionate to what they seek to achieve, which is a public health response to that threat.

In accordance with section 45R of that Act the Welsh Ministers are of the opinion that, by reason of urgency, it is necessary to make this instrument without a draft having been laid before, and approved by a resolution of, Senedd Cymru.

(1) 1984 p. 22. Mewn osodwyd adrannau 45C, 45F a 45P gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaethau o dan yr adrannau hyn wedi eu rhoi i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

(1) 1984 c. 22. Sections 45C, 45F and 45P were inserted by section 129 of the Health and Social Care Act 2008 (c. 14). The functions under these sections are conferred on "the appropriate Minister". Under section 45T(6) of the 1984 Act the appropriate Minister, as respects Wales, is the Welsh Ministers.

Enwi a dod i rym

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) (Diwygio) 2020 a deuant i rym ar 12 Hydref 2020.

Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) 2020

2.—(1) Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) 2020(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle rheoliad 7 rhodder—

“Cyfarwyddydau manau cyhoeddus

7.—(1) Caiff awdurdod lleol roi cyfarwyddyd man cyhoeddus mewn cysylltiad ag unrhyw fan cyhoeddus yn ardal yr awdurdod.

(2) At ddibenion y Rheoliadau hyn, ystyr “man cyhoeddus” yw man yn yr awyr agored y mae gan y cyhoedd fynediad iddo neu y caniateir i'r cyhoedd gael mynediad iddo, pa un ai drwy dalu neu fel arall, gan gynnwys—

- (a) tir sy'n ardd gyhoeddus neu a ddefnyddir at ddiben hamdden gan aelodau'r cyhoedd;
- (b) tir sy'n “cefn gwlad agored” fel y diffinnir “open country” yn adran 59(2) o Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949(2), fel y'i darllenir gydag adran 16 o Ddeddf Cefn Gwlad 1968(3);
- (c) unrhyw briffordd y mae gan y cyhoedd fynediad iddi;
- (d) llwybr cyhoeddus;
- (e) tir mynediad.

(3) Caiff cyfarwyddyd man cyhoeddus osod gwaharddiadau, gofynion neu gyfyngiadau mewn perthynas—

- (a) â mynediad i'r man cyhoeddus (gan gynnwys, yn benodol, gwahardd mynediad ar adegau penodedig);

Title and coming into force

1. The title of these Regulations is the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (Functions of Local Authorities etc.) (Wales) (Amendment) Regulations 2020 and they come into force on 12 October 2020.

Amendment of the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (Functions of Local Authorities etc.) (Wales) Regulations 2020

2.—(1) The Health Protection (Coronavirus Restrictions) (Functions of Local Authorities etc.) (Wales) Regulations 2020(1) are amended as follows.

(2) For regulation 7 substitute—

“Public place directions

7.—(1) A local authority may give a public place direction in respect of any public place in the authority's area.

(2) For the purposes of these Regulations, “public place” means an outdoor place to which the public have or are permitted access, whether on payment or otherwise, including—

- (a) land laid out as a public garden or used for the purpose of recreation by members of the public;
- (b) land which is “open country” as defined in section 59(2) of the National Parks and Access to the Countryside Act 1949(2), as read with section 16 of the Countryside Act 1968(3);
- (c) any highway to which the public has access;
- (d) a public path;
- (e) access land.

(3) A public place direction may impose prohibitions, requirements or restrictions in relation to—

- (a) access to the public place (including, in particular, prohibiting access at specified times);

(1) O.S. 2020/1011 (Cy. 225).

(2) 1949 p. 97.

(3) 1968 p. 41. Mae adran 16 wedi ei diwygio gan adran 111 o Ddeddf Trafnidiaeth 1968 (p. 73), Atodlen 27 i Ddeddf Dŵr 1989 (p. 15) ac O.S. 2012/1659. Mae diwygiadau eraill i adran 16 nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(1) S.I. 2020/1011 (W. 225).

(2) 1949 c. 97.

(3) 1968 c. 41. Section 16 has been amended by section 111 of the Transport Act 1968 (c. 73), Schedule 27 to the Water Act 1989 (c. 15) and S.I. 2012/1659. There are other amendments to section 16 which are not relevant to these Regulations.

- (b) â gweithgareddau a gynhelir yn y man cyhoeddus (gan gynnwys, yn benodol, gwahardd yfed alcohol neu gyfyngu ar yfed alcohol).

(4) Ond ni chaiff cyfarwyddyd man cyhoeddus—

- (a) gosod gwaharddiadau, gofynion na chyfyngiadau—
 - (i) mewn perthynas â mynediad i lwybr cyhoeddus neu dir mynediad (gweler yn hytrach reoliad 14);
 - (ii) ar yfed alcohol mewn mangre yn y man cyhoeddus sydd wedi ei hawdurdodi ar gyfer gwerthu neu gyflenwi alcohol;
- (b) gosod gwaharddiadau na gofynion mewn perthynas â mynediad i'r man cyhoeddus neu weithgaredd a gynhelir yn y man os yw gwaharddiad neu ofyniad o'r fath yn cael effaith mewn perthynas â'r man yn rhinwedd gorchymyn diogelu mannau agored cyhoeddus a wneir o dan adran 59 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014(1).

(5) Pan fo—

- (a) is-ddeddf yn gosod gwaharddiad, gofyniad neu gyfyngiad sy'n ymwneud â mynediad i fan cyhoeddus neu weithgaredd a gynhelir ynddo, a
- (b) mynediad i'r man cyhoeddus neu gynnal y gweithgaredd hwnnw ynddo wedi ei wahardd neu ei gyfyngu gan gyfarwyddyd man cyhoeddus neu'n ddarostyngedig i ofyniad mewn cyfarwyddyd man cyhoeddus,

nid oes unrhyw effaith i'r gwaharddiad, y gofyniad neu'r cyfyngiad a osodir gan yr is-ddeddf mewn perthynas â'r man cyhoeddus am gyhyd ag y mae'r cyfarwyddyd man cyhoeddus yn cael effaith.

(6) Rhaid i gyfarwyddyd man cyhoeddus ddisgrifio'r man cyhoeddus yn ddigon manwl er mwyn gallu canfod ei ffiniau.

- (b) activities carried on in the public place (including, in particular, prohibiting or restricting the consumption of alcohol).

(4) But a public place direction may not—

- (a) impose prohibitions, requirements or restrictions—
 - (i) in relation to access to a public path or access land (see instead regulation 14);
 - (ii) on the consumption of alcohol in premises in the public place which are authorised for the sale or supply of alcohol;
- (b) impose prohibitions or requirements in relation to access to the public place or an activity carried on in the place if such a prohibition or requirement has effect in relation to the place by virtue of a public spaces protection order made under section 59 of the Anti-social Behaviour, Crime and Policing Act 2014(1).

(5) Where—

- (a) a byelaw imposes a prohibition, requirement or restriction relating to access to, or an activity carried on in, a public place, and
- (b) access to, or the carrying on of that activity in, the public place is prohibited or restricted by, or subject to a requirement in, a public place direction,

the prohibition, requirement or restriction imposed by the byelaw is of no effect in relation to the public place for so long as the public place direction has effect.

(6) A public place direction must describe the public place in sufficient detail to enable its boundaries to be determined.

(7) Rhaid i awdurdod lleol sy'n rhoi cyfarwyddyd man cyhoeddus gymryd unrhyw gamau sy'n rhesymol ymarferol—

- (a) pan fo'r cyfarwyddyd yn gwahardd mynediad i'r man cyhoeddus neu'n cyfyngu ar fynediad iddo, er mwyn atal mynediad o'r fath neu gyfyngu arno (gan gynnwys drwy godi a chynnal hysbysiadau mewn mannau amlwg sy'n rhoi gwybod i'r cyhoedd am y cyfarwyddyd);
- (b) pan fo'r cyfarwyddyd yn gwahardd cynnal gweithgaredd yn y man cyhoeddus, yn cyfyngu ar y gweithgaredd hwnnw neu'n gosod gofynion ar y gweithgaredd hwnnw, er mwyn dwyn y cyfarwyddyd i sylw aelodau'r cyhoedd a all fod yn y man cyhoeddus (gan gynnwys drwy godi a chynnal hysbysiadau mewn mannau amlwg sy'n rhoi gwybod i'r cyhoedd am y cyfarwyddyd);
- (c) er mwyn rhoi rhybudd ymlaen llaw o'r cyfarwyddyd i bersonau sy'n cynnal busnes o fangre o fewn y man cyhoeddus;
- (d) er mwyn sicrhau y dygir y cyfarwyddyd i sylw unrhyw berson sy'n berchen ar fangre yn y man cyhoeddus, sy'n meddiannu mangre ynddo neu sy'n gyfrifol am fangre ynddo.

(8) Pan fo cyfarwyddyd man cyhoeddus yn gwahardd mynediad i'r man cyhoeddus neu'n cyfyngu ar fynediad iddo, rhaid i unrhyw berson, ac eithrio awdurdod lleol, sy'n berchen ar fangre yn y man cyhoeddus, sy'n meddiannu mangre ynddo neu sy'n gyfrifol am fangre ynddo gymryd unrhyw gamau sy'n rhesymol ymarferol er mwyn atal mynediad i'r fangre neu gyfyngu ar fynediad i'r fangre yn unol â'r cyfarwyddyd.

(9) Ni chaiff unrhyw berson, heb esgus rhesymol—

- (a) mynd i fan gyhoeddus neu aros ynddo;
- (b) cynnal gweithgaredd mewn man cyhoeddus,

yn groes i waharddiad, gofyniad neu gyfyngiad a osodir gan gyfarwyddyd man cyhoeddus.

(10) Ni chaiff awdurdod lleol roi cyfarwyddyd man cyhoeddus mewn cysylltiad â man cyhoeddus sy'n cynnwys eiddo y mae adran 73 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli

(7) A local authority which gives a public place direction must take such steps as are reasonably practicable—

- (a) where the direction prohibits or restricts access to the public place, to prevent or restrict such access (including by erecting and maintaining notices in prominent places informing the public of the direction);
- (b) where the direction prohibits, restricts or imposes requirements on the carrying on of an activity in the public place, to bring the direction to the attention of members of the public who may be in the public place (including by erecting and maintaining notices in prominent places informing the public of the direction);
- (c) to give prior notice of the direction to persons carrying on a business from premises within the public place;
- (d) to ensure that the direction is brought to the attention of any person who owns, occupies or is responsible for premises in the public place.

(8) Where a public place direction prohibits or restricts access to the public place, any person, other than a local authority, who owns, occupies or is responsible for premises in the public place must take such steps as are reasonably practicable to prevent or restrict public access to the premises in accordance with the direction.

(9) No person may, without reasonable excuse—

- (a) enter or remain in a public place;
- (b) carry on an activity in a public place,

in contravention of a prohibition, requirement or restriction imposed by a public place direction.

(10) A local authority may not give a public place direction in respect of a public place which includes property to which section 73 of

Clefydau) Act 1984(1) (eiddo'r Goron) yn gymwys iddo.

(11) Ond caiff awdurdod lleol roi cyfarwyddyd man cyhoeddus mewn cysylltiad â man o'r fath os yw'r awdurdod wedi ymrwymo i gytundeb o dan adran 73(2) â'r awdurdod priodol (o fewn yr ystyr a roddir i "appropriate authority" gan yr adran honno) fod—

- (a) adran 45C o'r un Ddeddf, a
- (b) y Rheoliadau hyn,

yn gymwys i'r eiddo (yn ddarostyngedig i unrhyw delerau a gynhwysir yn y cytundeb).

(12) At ddibenion y rheoliad hwn—

- (a) mae i "tir mynediad" yr ystyr a roddir yn rheoliad 14(7)(c),
- (b) mae i "alcohol" yr ystyr a roddir i "alcohol" gan adran 191 o Ddeddf Trwyddedu 2003(2);
- (c) mae i "llwybr cyhoeddus" yr ystyr a roddir yn rheoliad 14(7)(b), a
- (d) mae mangre wedi ei hawdurdodi ar gyfer gwerthu neu gyflenwi alcohol pan fo awdurdodiad wedi ei ganiatáu neu ei roi i'r fangre o dan Ddeddf Trwyddedu 2003, ac mae i "awdurdodiad" yr ystyr a roddir i "authorisation" gan adran 136(5) o'r Ddeddf honno."

(3) Yn rheoliad 10(b), yn lle "rheoliad 7(5)" rhodder "rheoliad 7(6)".

(4) Yn rheoliad 16—

- (a) ym mharagraff (1)(b), yn lle "7(7)" rhodder "7(8)";
- (b) ym mharagraff (5), ar ôl "gyfarwyddyd man cyhoeddus" mewnosoder "sy'n gosod gwaharddiad, gofyniad neu gyfyngiad mewn perthynas â mynediad i'r man";
- (c) ar ôl paragraff (5) mewnosoder—

"(5A) Pan fo gan gwnstabl sail resymol dros amau bod person mewn man cyhoeddus yn gweithredu yn groes i gyfarwyddyd man cyhoeddus sy'n gosod gwaharddiad, gofyniad neu gyfyngiad mewn perthynas â chynnal gweithgaredd yn y man, caiff y cwnstabl gymryd unrhyw gamau y mae'r cwnstabl yn ystyried eu bod yn angenrheidiol er mwyn atal y person rhag parhau i weithredu yn groes i'r cyfarwyddyd (gan gynnwys symud y person o'r man).";

the Public Health (Control of Disease) Act 1984(1) (Crown property) applies.

(11) But a local authority may give a public place direction in respect of such a place if the authority has entered into an agreement under section 73(2) with the appropriate authority (within the meaning given by that section) that—

- (a) section 45C of the same Act, and
- (b) these Regulations,

apply to the property (subject to such terms as may be included in the agreement).

(12) For the purposes of this regulation—

- (a) "access land" has the meaning given in regulation 14(7)(c),
- (b) "alcohol" has the meaning given by section 191 of the Licensing Act 2003(2);
- (c) "public path" has the meaning given in regulation 14(7)(b), and
- (d) premises are authorised for the sale or supply of alcohol where the premises have been granted or given an authorisation under the Licensing Act 2003, and "authorisation" has the meaning given by section 136(5) of that Act."

(3) In regulation 10(b), for "regulation 7(5)" substitute "regulation 7(6)".

(4) In regulation 16—

- (a) in paragraph (1)(b), for "7(7)" substitute "7(8)";
- (b) in paragraph (5), after "direction" insert "imposing a prohibition, requirement or restriction in relation to access to the place";
- (c) after paragraph (5) insert—

"(5A) Where a constable has reasonable grounds for suspecting that a person in a public place is acting in contravention of a public place direction imposing a prohibition, requirement or restriction in relation to the carrying on of an activity in the place, the constable may take such action as the constable considers necessary to prevent the person from continuing to act in contravention of the direction (including removing the person from the place).";

(1) Mae adran 73 wedi ei diwygio gan Atodlen 11 i Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14).

(2) 2003 p. 17. Mae adran 191 wedi ei diwygio gan adran 135 o Ddeddf Plismona a Throsedd 2017 (p. 3) ac O.S. 2006/2407.

(1) Section 73 has been amended by Schedule 11 to the Health and Social Care Act 2008 (c. 14).

(2) 2003 c. 17. Section 191 has been amended by section 135 of the Policing and Crime Act 2017 (c. 3) and S.I. 2006/2407.

- (d) ym mharagraff (6)—
- (i) yn is-baragraff (a), yn lle “neu (5)” rhodder “, (5) neu (5A)”;
 - (ii) yn is-baragraff (b), yn lle “neu (5)(b)” rhodder “, (5)(b) neu (5A)”;
- (e) ym mharagraff (7), yn lle “neu (5)” rhodder “, (5) neu (5A)”.
- (5) Yn rheoliad 18(1)—
- (a) yn is-baragraff (a), yn lle “7(8)” rhodder “7(9)”;
 - (b) yn is-baragraff (b), yn lle “7(7)” rhodder “7(8)”.
- (6) Ym mhob lle y mae’n digwydd yn y darpariaethau a restrir ym mharagraff (7)—
- (a) yn lle “dirymu” (pan nad yw’n cael ei ddilyn gan “cyfarwyddyd” neu “cyfarwyddydau”) rhodder “thynnu’n ôl” ac yn lle “ddirymu” (pan nad yw’n cael ei ddilyn gan “cyfarwyddyd”) rhodder “dynnu’n ôl”;
 - (b) yn lle “ddirymu’r cyfarwyddyd” rhodder “dynnu’r cyfarwyddyd yn ôl”;
 - (c) yn lle “dirymu cyfarwyddyd” rhodder “tynnu cyfarwyddyd yn ôl” ac yn lle “ddirymu cyfarwyddyd” (pan nad yw’n cael ei ragflaenu gan “neu”) rhodder “dynnu cyfarwyddyd yn ôl”;
 - (d) yn lle “dirymiad” rhodder “tynnu’n ôl” ac yn lle “ddirymiad” rhodder “dynnu’n ôl”;
 - (e) yn lle “a dirymu cyfarwyddydau” rhodder “cyfarwyddydau a’u tynnu’n ôl” ac yn lle “neu ddirymu cyfarwyddyd” rhodder “cyfarwyddyd neu dynnu cyfarwyddyd yn ôl”.
- (7) Y darpariaethau yw—
- (a) rheoliadau 8, 9 a 13 gan gynnwys, pan fo’n berthnasol, eu penawdau;
 - (b) penawdau Penodau 1 a 3 o Ran 2.

- (d) in paragraph (6)—
- (i) in sub-paragraph (a), for “or (5)” substitute “, (5) or (5A)”;
 - (ii) in sub-paragraph (b), for “or (5)(b)” substitute “, (5)(b) or (5A)”;
- (e) in paragraph (7), for “or (5)” substitute “, (5) or (5A)”.
- (5) In regulation 18(1)—
- (a) in sub-paragraph (a), for “7(8)” substitute “7(9)”;
 - (b) in sub-paragraph (b), for “7(7)” substitute “7(8)”.
- (6) In each place it occurs in the provisions listed in paragraph (7)—
- (a) for “revoking” substitute “withdrawing”;
 - (b) for “revocation” substitute “withdrawal”;
 - (c) for “revoke” substitute “withdraw”;
 - (d) for “revoked” substitute “withdrawn”.
- (7) The provisions are—
- (a) regulations 8, 9 and 13 including, where relevant, their headings;
 - (b) the headings to Chapters 1 and 3 of Part 2.

Mark Drakeford

Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru
Am 3.50 p.m. ar 9 Hydref 2020

First Minister, one of the Welsh Ministers
At 3.50 p.m. on 9 October 2020

©© Hawlfraint y Goron 2020

© Crown copyright 2020

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty’s Stationery Office and Queen’s Printer of Acts of Parliament.

£6.90

W202011161001 11/2020

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2020/1100>

ISBN 978-0-348-11924-4



9 780348 119244